



**AMGUEDDFA  
CYMRU**

# **Adroddiad Monitro Blynyddol**

## **Yr Iaith Gymraeg**

**2024/25**

## Cynnwys

1. Trosolwg .....	4
2. Cyngor polisi, cyfieithu a chreu cynnwys Cymraeg .....	5
3. Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa .....	6
4. Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154) .....	6
4.1. Gohebiaeth ysgrifenedig .....	6
4.2. Cysylltu dros y ffôn .....	7
4.3. Cyfarfodydd .....	7
4.4. Rhaglen gyhoeddus Amgueddfa Cymru .....	8
4.5. Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru .....	9
4.6. Y wefan, deunyddiau digidol a chyfryngau cymdeithasol .....	10
4.7. Derbynfeydd .....	11
4.8. Tendo .....	11
5. Llunio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160) .....	11
5.1. Cyfrifoldeb .....	11
5.2. Llunio, adolygu neu addasu polisi .....	11
5.3. Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil .....	12
6. Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166) .....	12
6.1. Darparu dogfennau dwyieithog .....	12
6.2. Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu .....	12
6.3. Meddalwedd TGCh .....	12
6.4. Y Fewnrwyd .....	13
6.5. Gwersi Cymraeg ac ymwybyddiaeth iaith .....	13
6.5.1. Hyfforddiant ffurfiol .....	13
6.5.2. Hyfforddiant anffurfiol .....	14
6.6. Recriwtio .....	14
7. Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168) .....	15
7.1. Asesu sgiliau iaith staff .....	15
7.2. Cyrsiâu hyfforddi .....	17
7.3. Datrys cwynion .....	18
7.3.1. Cwynion gan y cyhoedd .....	18
7.3.2. Cwynion at y Comisiynydd Iaith ac ymchwiliadau gan y Comisiynydd Iaith .....	18
8. Casgliad .....	18

## 1. Trosolwg

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Amgueddfa Cymru i gydymffurfio â safonau iaith sy'n cwmpasu pedwar maes, sef cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu a chadw cofnodion. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio, ein Polisi Iaith, a'n hadroddiadau blynyddol blaenorol, i'w cael ar ein gwefan [www.amgueddfa.cymru/ygymraeg](http://www.amgueddfa.cymru/ygymraeg). Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion a nodir yn y safonau.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru, felly mae gan Amgueddfa Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth feithrin ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru, a'i defnyddio a'i dathlu wrth ein gwaith beunyddiol. Rydym yn falch iawn o'r gwaith ehangach a wnawn er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ei hybu a'i hyrwyddo, yn ogystal â'n datblygiadau ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'n strategaeth deg mlynedd, *Amgueddfa Cymru 2030*.

Mae ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cadarn i'r Gymraeg yn eu cymunedau, lle mae'r Gymraeg yn cael ei gweld, ei chlywed, ei defnyddio a'i dathlu. Mae cefnogi'r seilwaith hwn yn hollbwysig er mwyn creu'r amgylchiadau ar gyfer defnyddio iaith. Mae rhai o'n hamgueddfeydd yn datblygu'n gyrchfannau atyniadol i siaradwyr newydd/dysgwyr yn arbennig e.e. Sain Ffagan, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Rydyn ni'n cefnogi ein staff (gan gynnwys Ymddiriedolwyr, Gwirfoddolwyr a Chynhyrchwyr Ifanc) i ddysgu a defnyddio'r iaith am fod ganddynt rôl allweddol wrth ddarparu ein gwasanaethau, wrth greu gweithleoedd dwyieithog, ac fel lladmeryddion ar ran yr iaith boed hynny yn ein hamgueddfeydd neu du hwnt i'r gweithlu. Rydym yn deall fod creu defnyddwyr hyderus yn y gweithlu yn creu defnyddwyr fydd yn hyderus i ddefnyddio'u Gymraeg yn eu cymunedau a'u cartrefi hefyd. Dyma un o egwyddorion creiddiol ein polisi newydd ar ein defnydd mewnol o'r Gymraeg yn 2025, sy'n cael ei lunio gyda swyddfa'r Comisiynydd Iaith i greu ac a fydd yn cael ei lansio ddiwedd 2025.

Rydym yn falch o adrodd ar nifer o lwyddiannau, datblygiadau a chynnydd a wnaed yn ystod 2024/25:

- Cynnal rhaglen gyhoeddus o ddigwyddiadau, arddangosfeydd a chyfleoedd i ddathlu a defnyddio'r iaith a chroesawu cynulleidfaoedd newydd i'n hamgueddfeydd ac at y Gymraeg, gan gynnwys arddangosfa *Y Cymoedd* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, *Ein Lleisiau Ni*, project i annog a chasglu lleisiau LHDTTC+ yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a phroject *Safbwynt(iau)* ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru ar draws ein hamgueddfeydd.

- Cryfhau ac ehangu ein partneriaeth gyda mentrau iaith lleol ein hamgueddfeydd i hwyluso dysgu a defnyddio'r Gymraeg – bellach mae gan bob amgueddfa berthynas â'i menter iaith leol ac yn cynnal digwyddiadau o deithiau tywys a sesiynau sgwrsio, i grwpiau rheini a digwyddiadau mawr fel Gŵyl Tawe.
- Parhau i ddatblygu projectau technolegol er budd y Gymraeg gan gynnwys cwblhau cyfnod treialu llwyddiannus o blatfform TellMe sy'n defnyddio deallusrwydd artifisial i greu profiad wedi'i deilwra i anghenion ymwelwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
- Datblygu ein sylfaen ddata a'n dealltwriaeth o'n hymwelwyr mewn perthynas â'r Gymraeg, er enghraifft trwy'r data dadansoddol o'n platfform tocynnu ar-lein cwbl ddwyieithog a systemau eraill fell QR Cymraeg.
- Gweithio gyda swyddfa'r Comisiynydd Iaith i ddatblygu polisi newydd ar ein defnydd mewnol o'r Gymraeg.

Yn ystod 2024/25, ni ddaeth unrhyw gwynion i law gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith na'r cyhoedd.

Grŵp Monitro'r Gymraeg a Chydraddoldeb, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth Amgueddfa Cymru â'r safonau iaith ac adolygu'r gwaith o roi ein Polisi Iaith ar waith ar draws y corff. Mae'r grŵp yn cwrdd bob deufis gan adrodd i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad. Cynhelir y cyfarfodydd yn ddwyieithog gan ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd er mwyn cadw aelodaeth y grŵp yn eang.

## **2. Cyngor polisi, cyfieithu a chreu cynnwys Cymraeg**

Mae gan Amgueddfa Cymru dîm cyfieithu mewnol sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg i Saesneg a Saesneg i Gymraeg, drafftio ochr yn ochr, gwasanaeth golygu, gwasanaeth gwirio gwaith cydweithwyr, gwasanaeth prawfddarllen, geirfa ar-lein, ac yn cynghori ar gynnwys a dylunio dwyieithog. Rydym hefyd yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu papur a chyfieithu ar y pryd gan gwmnïau preifat yn ôl y galw. Defnyddir Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru er mwyn caffael gwasanaethau cyfieithu allanol ble bynnag y bo modd.

Mae Cydlynnydd y Gymraeg yn cynnig arweiniad a chynghori i staff yr Amgueddfa ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Rydym hefyd yn cyfrannu at drafodaethau ehangach ynghylch y Gymraeg ar lefel leol a chenedlaethol. Eleni, rydym wedi ymateb i nifer o geisiadau am wybodaeth gan y Comisiynydd Iaith mewn amryw

feysydd er enghraifft diwygio’u polisi gorfodi. Rydym wedi cyflwyno holiadur arfer dda i’r Comisiynydd Iaith ar ein gwaith gyda chwmni QR Cymraeg. Eleni hefyd mae’r Amgueddfa wedi cefnogi Cydlynnydd y Gymraeg i gwblhau cwrs TAR mewn Polisi a Chynllunio Iaith.

Fe barhawyd i ailasesu’r iaith a ddefnyddir wrth ddad-drefedigaethu’r casgliadau cenedlaethol, gan geisio cyfrannu at greu a defnyddio geirfa Gymraeg gyfoes a chyd-radd. Byddwn yn parhau i gydweithio a chyd-drafod â’n cymunedau a’n partneriaid ynghylch y gwaith pwysig hwn.

### **3. Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa**

Mae’r safonau iaith wedi’u rhannu’n bum dosbarth:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Cadw cofnodion
- Hybu<sup>1</sup>

At ddibenion yr adroddiad hwn, lle bo ein gwaith yn pontio anghenion gwahanol safonau, adroddir arnynt yn y man y tybiwn sydd fwyaf perthnasol.

### **4. Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154)**

#### **4.1. Gohebiaeth ysgrifenedig**

Mae’r templedi llythyron, ein gwefan a negeseuon awtomatig e-byst yn cynnwys geiriad safonol ynghylch croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Ceir arwydd iaith Gwaith ym mhob derbynfa ac mae staff dwyieithog ar gael wrth bob derbynfa. Mae rheffynnau a bathodynnau iaith Gwaith ac iaith Gwaith/Dysgwyr ar gael i’r holl staff ac rydym yn annog eu defnydd lle bynnag posibl.

---

<sup>1</sup> Ni chafodd safonau’r categori hwn eu gosod ar Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, mae hybu a hyrwyddo’r gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog a gynigiwn, a dathlu defnydd a datblygiad yr iaith, yn rhan annatod o’n gwaith.

Hysbysir pob aelod o staff newydd am yr angen i sicrhau llofnod e-bost a neges peiriant ateb dwyieithog yn y sesiwn gynefino orfodol, yn rhan o gyflwyniad ehangach am y Gymraeg a'r safonau yn Amgueddfa Cymru.

Mae unrhyw eiriad safonol a ddefnyddir hefyd ar gael yn ein Geirfa ar-lein [www.amgueddfa.cymru/geirfa](http://www.amgueddfa.cymru/geirfa) sydd ar gael i'n staff a'r cyhoedd.

## 4.2. Cysylltu dros y ffôn

Mae ein system ffonau yn gweithredu'n bennaf trwy gyfrifiaduron yn hytrach na ffonau pen desg. Mae'r system yn awtomeiddio profiad y defnyddiwr i raddau helaeth, ond mae hyn wedi ein galluogi i sicrhau dewislenni a gwybodaeth Gymraeg naturiol a hwyliog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf bob tro. Darparwyd hyfforddiant i staff am ofynion y Safonau mewn perthynas â'r system sydd hefyd ar gael yn barhaus ar y Fewnrwyd. Nid yw prif rif ffôn yr Amgueddfa wedi newid.

Os bydd angen siarad ag aelod o staff, bydd y staff dethol sy'n ateb prif linell ffôn Amgueddfa Cymru yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) gan hysbysu'r galwr bod modd cael gwasanaeth Cymraeg. Gellir gwirio dewis iaith aelodau staff y cyfeirir yr alwad atynt ar y Fewnrwyd hefyd. Mae negeseuon electronig prif linell ffôn yr Amgueddfa yn cyfarch y galwr yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) ac yn hysbysu'r galwr y caiff adael neges yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn ffonio unrhyw unigolyn am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn a yw'r unigolyn yn dymuno derbyn galwadau ffôn gennym yn Gymraeg. Os mai dyna ddymuniad yr unigolyn, cedwir cofnod o'i ddymuniad. Mae trefniadau adrannol ar waith ar draws Amgueddfa Cymru ar gyfer hyn.

## 4.3. Cyfarfodydd

Mae cyfieithu ar y pryd ar gael yn holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac mewn cyfarfodydd eraill lle dymunir hynny.

Rydym yn creu cyfleoedd i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd fel dull o gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg a chefnogi staff sydd am weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, darperir cyfieithu ar y pryd yn holl gyfarfodydd Grŵp Monitro'r Gymraeg a Chydraddoldeb, sesiynau briffio'r holl staff a chyfarfodydd project ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru. Mae canllawiau i Gadeiryddion ar gael ynghyd â geiriad safonol, sy'n seiliedig ar ganllawiau cyfieithu ar y pryd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a *Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd* y Comisiynydd Iaith.

Lle bo cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ar draws y corff a bod gofyn adrodd am y cynnwys i'r Uwch Dîm Gweithredol, caiff y cofnodion eu

Ilunio yn Gymraeg a chaiff trosolwg Saesneg ei ddarparu i'r Uwch Dîm Gweithredol.

#### 4.4. Rhaglen gyhoeddus Amgueddfa Cymru

Rydym yn annog a chefnogi defnyddio a dathlu'r Gymraeg trwy ein rhaglen gyhoeddus.

Ymhlith uchafbwyntiau ein rhaglen ddigwyddiadau yn 2024/25 oedd Gŵyl Fwyd Amgueddfa Cymru yn Sain Ffagan sy'n rhoi llwyfan i'r Gymraeg ac i gynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru. Roedd rhaglen yr Ŵyl, sy'n ddigwyddiad blynyddol am ddim ers 2010, yn cynnwys arddangosfeydd coginio, perfformiadau theatr stryd, sgiliau syrcais a cherddoriaeth Gymraeg. Mae'n gyfle i bobl o bob oed gymdeithasu yn Gymraeg a chael eu cyflwyno i'r Gymraeg mewn lleoliad naturiol ddwyieithog. Yn 2024, croesawyd 24,000 o ymwelwyr a thros 80 o stondinwyr. Yn rhan o gontract y stondinwyr, mae'n ofynnol bod eu holl ddeunydd ysgrifenedig yn ddwyieithog ac anogir stondinwyr i gael o leiaf un aelod o staff dwyieithog ar y stondin drwy gydol y penwythnos. Mae'r trefniadau ar gyfer gŵyl 2025 hefyd ar y gweill, ac mae 55% o stondinwyr wedi nodi y bydd gyda nhw staff Cymraeg ar eu stondin yn ystod y digwyddiad. Rydyn ni hefyd yn cynnal hyfforddiant i'r stondinwyr am agweddau ar yr ŵyl, gan gynnwys y Gymraeg ac yn cysylltu stondinwyr â gwasanaethau sy'n hybu'r Gymraeg e.e. Helo Blod (Llywodraeth Cymru) a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn enwedig y modiwl dysgu Cymraeg 10 awr ar gyfer y sector manwerthu.

Mae ein partneriaeth gyda'r Mentrau Iaith yn parhau'n ffyniannus. Er enghraifft, ym mis Mehefin 2025 cynhaliwyd Gŵyl Tawe yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gyda Menter Iaith Abertawe. Mynychodd 4,762 o bobl – un o'r diwrnodau prysuraf erioed yn yr Amgueddfa. Ar y cyd â'r Fenter, cynhaliwyd Twts Tawe yn wythnosol tan y Pasg 2025, ac rydym yn cynllunio cynnal Cylch Ti a Fi yn yr Amgueddfa o fis Medi 2025 ymlaen. Yn Amgueddfa Wlân Cymru, cynhelir Ŵyn Bach, grŵp tymhorol i blant dan 5 oed mewn partneriaeth â Menter Gorllewin Sir Gâr a Cymraeg i Blant, a Paned a Phapur, grŵp sgwrsio i siaradwyr Cymraeg mewn partneriaeth â Menter Gorllewin Sir Gâr. Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn cynnal digwyddiadau ar y cyd gyda Menter Iaith Casnewydd. Rydym yn parhau hefyd i fod yn bartner yng Ngŵyl Hanes Cymru i Blant, a chynhaliwyd cyfres o weithdai rhithwir yn rhan o'r ŵyl yn 2024.

O ran y Gymraeg a lles, cydweithiwyd â Living with Dementia i greu adnoddau am y Gymraeg a dementia *Language and heritage – Living with Dementia Toolkit*, a chynhaliwyd Gŵyl Caru dy Iechyd Meddwl yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Trwy gyfrannu at Wythnos Addysg Oedolion crëwyd cyfleoedd i oedolion ddysgu ac ymarfer eu Cymraeg, a lansiwyd y cwrs Cymraeg cyfunol Mynediad 1 a 2 gan Dysgu Cymraeg Caerdydd yn Sain Ffagan. Yn dilyn Wythnos Addysg Oedolion, sefydlwyd gweithgareddau newydd yn Sain

Ffagan gan gynnwys diwrnodau tymhorol i Ddysgwyr Cymraeg mewn partneriaeth â Menter Caerdydd a Dysgu Cymraeg Caerdydd.

Mae ein rhaglen addysg hybrid yn cynnig cyfuniad o gyrsiau wyneb yn wyneb a digidol dwyieithog sydd ar gael i holl ysgolion Cymru. Yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, rydym yn defnyddio'r dull lluosieithog wrth ddatblygu cynnwys ein sesiynau addysg, gan gynnwys y Gymraeg mewn gweithdai cyfrwng Saesneg fel ffordd o integreiddio ymadroddion a chynnwys Cymraeg. Mae'r dull hwn yn helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae'r niferoedd sydd yn ymweld â thudalennau Addysg Cymraeg ein gwefan wedi dyblu rhwng 2021/22 a 2024/25, o 8K i 16.6K.

Yn rhan o'n partneriaeth strategol gydag E-SGOL Cymru, cynhaliwyd project ehangu mynediad at brofiadau dysgu ansawdd uchel ar ymgyrchu a phrotest. Cyrhaeddwyd 1,461 o ddisgyblion mewn 59 ysgol yn 18 o siroedd Cymru yn rhan o'r rhaglen ddwyieithog, pedair wythnos ar gyfer disgyblion galluog a thalentog. Trwy gyfuno technoleg, hanes a newid cymdeithasol i rymuso pobl ifanc, rhoddwyd yr wybodaeth a'r offer iddynt feddwl yn feirniadol am ymgyrchu, protest, sut allan nhw siapio'r dyfodol.

Mae pob arddangosfa a gynhyrchir yn fewnol gennym yn ddwyieithog. Nid yw'n ofynnol i ni gyfieithu arddangosfeydd dros dro allanol sy'n cael eu cynnal yn ein hamgueddfeydd yn ôl y safonau iaith. Serch hynny, ein polisi yw y dylai pob arddangosfa a gynhelir yn ein hamgueddfeydd gael ei chyflwyno yn ddwyieithog. Wrth wneud hyn, rydym yn arbrofi â dulliau dehongli dwyieithog ac mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth ac arferion ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Eleni, cynhaliwyd *Drych ar yr Hunlun, Streic! 84-85* ac *Y Cymoedd* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, HAENAU gan Rhiannon Gwyn yn Amgueddfa Lechi Cymru, *Ein Lleisiau Ni*, project i annog a chasglu lleisiau LHDTTC+ yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Yn rhan o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd project *Safbwynt(iau)* ym mhob un o'n hamgueddfeydd ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, gan gomisiynu artistiaid i roi llais newydd i straeon gwrthrychau o'r casgliad cenedlaethol gyda'r nod o ail-ddychmygu a rhoi persbectif newydd ar hanes Cymru, herio ein rhagdybiaethau a rhoi sylw i'r straeon a wthiwyd i'r ymylon. Mae gwaith Sophie Mak-Schram yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn trafod iaith a dad-drefedigaethu.

Ers mis Tachwedd 2024, mae Amgueddfa Lechi Cymru ar gau i'r cyhoedd yn ystod cyfnod y project ailddatblygu. Tra bydd yr Amgueddfa ar gau, cynhelir arddangosfeydd dros dro yn Ysbyty Chwarel, Llanberis; Castell Penrhyn a Chaernarfon.

#### **4.5. Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru**

Mae brand Amgueddfa Cymru yn blaenoriaethu ac yn dathlu'r Gymraeg ac yn arddel dull lluosieithog yn ein llais brand. Rydym yn hynod falch o fod yn rhan o'r don newydd o gyrff cenedlaethol sy'n defnyddio'r Gymraeg i arddel 'brand Cymru' ar draws y byd.

Mae ein Strategaeth Amgueddfa Cymru 2030 yn datgan ein hymrwymiad at y Gymraeg yn glir gan nodi bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru ac mae'n rhan allweddol o ddiwylliant a hunaniaeth Amgueddfa Cymru.

Mae dwyieithrwydd yn parhau i fod yn rhan annatod o waith dylunio'r Amgueddfa hefyd ym mhob agwedd ar ein gwaith. Yn unol â'n canllawiau, mae'r Gymraeg yn cael ei gosod uwchben y Saesneg neu ar y chwith. Mae arwyddion a hysbysiadau'r Amgueddfa (gan gynnwys rhai dros dro) yn ddwyieithog. Rydym yn parhau i arloesi ac arwain ym maes dylunio dwyieithog.

Mae ein geirfa ar-lein hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol sydd ar gael i staff a'r cyhoedd fel ei gilydd. Mae'r tîm Cyfieithu a'r Iaith Gymraeg hefyd yn cynnig gwasanaeth gwirio ac adborth er mwyn cynorthwyo staff sydd am fagu hyder i ysgrifennu yn Gymraeg.

#### **4.6. Y wefan, deunyddiau digidol a chyfryngau cymdeithasol**

Mae holl dudalennau'r wefan yn cynnwys dolen uniongyrchol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg gan ddilyn yr egwyddor o adeiladu ein gwefannau i greu tudalennau sy'n ddrych o'i gilydd. Rydym yn parhau i hybu'r cynnig rhagweithiol yn ein cyfryngau digidol, gan gynnwys cynnig ategyn VOCAB ar dudalennau Cymraeg ein gwefan er mwyn annog defnydd ohonynt a hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr. Cyhoeddir polisïau, strategaethau, adroddiadau a chynlluniau blynyddol, canllawiau, a datganiadau i'r wasg ar ein gwefan yn ddwyieithog.

Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn ddwyieithog, gyda chydbwysedd rhwng cynnwys Cymraeg a Saesneg. Eleni, parhawyd i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n hybu'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys cyfweiliad gyda'n Prif Weithredwr sydd wedi dysgu Cymraeg ar gyfer ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg y Comisiynydd Iaith.

Mae ein rhaglen Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, sy'n creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiad yn y sector treftadaeth a'r celfyddydau, yn parhau. Ymhlith cynnwys y flwyddyn a fu mae cyfrif Instagram dwyieithog Bloedd AC.

Rydym yn defnyddio platfform YouTube ar gyfer ein deunydd fideo a ffilmiau. Gosodir isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar bob fideo a gyhoeddir.

Rydym hefyd wedi datblygu platfform tocynnau ar-lein cwbl ddwyieithog i alluogi ymwelwyr i archebu a phrynu tocynnau ar gyfer digwyddiadau ac arddangosfeydd yn ein hamgueddfeydd. Mae hyn yn ein galluogi i gasglu data, gan gynnwys dewisiadau megis dewis iaith, fel y gallwn gyfeirio cynnwys at bobl yn eu dewis iaith.

Eleni, yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Caerllion, rydym wedi cwblhau cyfnod treialu llwyddiannus o blatfform sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i greu profiad hunan-dywys unigryw sy'n ymateb i chwilfrydedd a chwestiynau unigol ein hymwelwyr. Gweithiwyd gyda chwmni preifat i ddatblygu'r rhyngwyneb sy'n gwbl ddwyieithog. Mae'r platfform bellach yn cael ei ddatblygu yn rhaglen lawn, gan gyfrannu at ddatblygiad technolegol yn Gymraeg a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn ddigidol.

Ychwanegwyd profiadau newydd at system realiti estynedig Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac ar gais swyddfa'r Comisiynydd, cyflwynwyd astudiaeth achos arfer dda o'n gwaith gyda chwmni QR Cymraeg. Mae'r cwmni'n cynnig pecyn sy'n hwyluso defnydd o godau QR i'r cyhoedd trwy greu un cod QR a thudalen dewis iaith yn hytrach na chreu cod QR ar gyfer pob iaith. Ceir hefyd fynediad at y data dadansoddi cysylltiedig am ddefnydd sy'n cyfoethogi ein dealltwriaeth o arferion a dewisiadau ieithyddol ein cynulleidfaoedd.

#### **4.7. Derbynfeydd**

Mae ein derbynfeydd cyhoeddus yn arddangos arwydd sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg ac arwydd iaith Gwaith. Mae staff sy'n gweithio wrth ddesgiau gwybodaeth/derbynfeydd sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo rheffyn neu fathodyn sy'n cyfleu hynny.

#### **4.8. Tendo**

Mewn achosion lle mae pwnc y gwahoddiad i dendro yn cynnwys yr angen i'r gwaith gael ei gynhyrchu yn Gymraeg neu pan mae cynulleidfa yn disgwyl cael y gwaith yn Gymraeg, rydym yn cyhoeddi tendr yn Gymraeg a Saesneg. Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, byddwn yn nodi y croesewir cyflwyno tendrau yn Gymraeg.

Rydym yn parhau i gydweithio a hyrwyddo cynlluniau'r Llywodraeth â'n partneriaid hefyd (megis Helo Blod a chynllun Cynnig Cymraeg y Comisiynydd iaith), er enghraifft trwy greu cysylltiadau rhyngddynt â chwmnïau preifat y down i gysylltiad â nhw trwy ddigwyddiadau fel Gŵyl Fwyd Sain Ffagan, marchnadoedd crefftwyr a darparwyr addysg.

## **5. Llundio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160)**

### **5.1. Cyfrifoldeb**

Mae cyfrifoldeb am y Gymraeg a pholisi wedi ei osod ar lefel Gyfarwyddiaeth yr Amgueddfa, dan ofal y Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu. Mae unrhyw drafodaethau parthed effaith polisiau neu strategaethau corfforaethol ar yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o broses benderfyniadau Uwch Arweinwyr a Thîm Gweithredol Amgueddfa Cymru.

### **5.2. Llundio, adolygu neu addasu polisi**

Mae canllawiau mewnol yn seiliedig ar ganllawiau'r Comisiynydd ar Safonau Llundio Polisi yn cynnig adnodd hawdd i'w ddefnyddio ar gyfer staff Amgueddfa Cymru. Maen nhw'n cynnwys ffurflen sy'n cofnodi'r holl broses, ac a gedwir yn gofnod o unrhyw benderfyniad a wneir o safbwynt polisi a'r Gymraeg. Mae'r canllaw bellach ar gael ar y Fewnrwyd i holl staff Amgueddfa Cymru.

Rydyn ni'n ystyried unrhyw effeithiau ar y Gymraeg wrth i ni ddatblygu a gweithredu ein rhaglen Llywio ein Dyfodol, sy'n ymateb i'r toriadau yn ein cymorth grant.

### **5.3. Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil**

Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil fydd yn sail i benderfyniadau polisi, byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol.

## **6. Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166)**

### **6.1. Darparu dogfennau dwyieithog**

Ymhlith y dogfennau a ddarperir yn ddwyieithog i staff, mae:

- contract cyflogaeth neu contract am wasanaethau
- unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â chyflogaeth
- unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddiant, amcanion perfformiad a/neu gynllun gyrfa
- ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg (cofnodir gwyliau ac absenoldebau o'r gwaith ar system electronig CIPHR)
- ein holl bolisiau gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y canlynol:
  - ymddygiad yn y gweithle
  - iechyd a lles yn y gweithle
  - cyflogau neu fuddion yn y gweithle
  - rheoli perfformiad

- absenoldeb o'r gwaith
- amodau gwaith
- patrymau gwaith.

## **6.2. Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu**

Mae proses gwynion a disgyblu'r Amgueddfa yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwyn neu ymateb i unrhyw gŵyn neu honiad a wnaed amdanynt yn Gymraeg, cynnal cyfarfodydd neu achosion disgyblu, ac unrhyw ganlyniadau neu benderfyniadau sy'n deillio o hyn, yn Gymraeg.

## **6.3. Meddalwedd TGCh**

Mae ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid dwyieithog yn ein galluogi i gofnodi dewis iaith, casglu data defnydd a datblygu darlun cliriach o anghenion ac arferion ein cynulleidfaoedd Cymraeg er mwyn gwella'u profiadau. Gweithiwyd gyda chwmni rhyngwladol nid-er-elw Tessitura ar y feddalwedd, a dyma'r rhyngwyneb blaen swyddfa dwyieithog cyntaf iddyn nhw ei greu.

Mae'r Amgueddfa'n darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'r staff, ac yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).

Defnyddir system Cyfieithu Cymru (Canolfan Bedwyr) ar draws Amgueddfa Cymru sy'n galluogi gweinyddu electronig effeithlon a defnydd o gof cyfieithu.

## **6.4. Y Fewnrwyd**

Cafodd y Fewnrwyd ei datblygu'n fewnol ac mae wedi'i chreu i fod yn gwbl ddwyieithog. Mae'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) ffurflenni, dogfennau cynorthwyol cyllid, y llawlyfr staff, systemau a thempledi mewnol. Mae adran eang am y Gymraeg sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am hyfforddiant a sgiliau ffurfiol ac anffurfiol, clybiau a gweithgareddau, adnoddau cyfrifiadurol, y cyfryngau cymdeithasol, y safonau, hawliau iaith a chanllawiau.

Mae gennym system electronig ar gyfer anfon negeseuon i'r holl staff o'r enw Sgwrs ac mae'r negeseuon a anfonir yn ddwyieithog, ac mae cylchlythyr ein gwirfoddolwyr yn ddwyieithog.

## **6.5. Gwersi Cymraeg ac ymwybyddiaeth iaith**

Cynigir nifer o wahanol fathau o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol am ddim ac o fewn oriau gwaith er mwyn cynorthwyo ein staff i ddysgu a defnyddio eu Cymraeg.

### 6.5.1. Hyfforddiant ffurfiol

Dyma nifer y staff a gwblhaodd hyfforddiant dysgu Cymraeg ffurfiol yn 2024/25:

Lefel	Nifer 2020/21	Nifer 2021/22	Nifer 2022/23	Nifer 2023/24	Nifer 2024/25
Cwrs Croeso (10 awr ar-lein)	2	0	0	0	2
Mynediad	19	13	13	10	8
Sylfaen	9	1	4	3	2
Canolradd	2	10	6	5	1
Canolradd/Uwch Preswyl	0	0	0	1	0
Uwch	1	1	10	6	2
Gloywi	-	-	-	-	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>33</b>	<b>25</b>	<b>33</b>	<b>25</b>	<b>16</b>

Rydym yn adolygu ein darpariaeth fewnol ar hyn o bryd ac yn rhan o ddatblygu ein polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg, byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth o anghenion a dyheadau ein staff ynghylch dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn ymateb i'r anghenion hynny gyda darpariaeth targedol a phwrpasol mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Rydym wedi datblygu dogfen datblygu sgiliau iaith at ddefnydd staff a rheolwyr llinell. Mae'r ddogfen yn mynd law yn llaw â chynllun rheoli ac adolygu perfformiad staff.

### 6.5.2. Hyfforddiant anffurfiol

Cynhelir amryw glybiau anffurfiol i ddysgwyr a staff rhugl ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg er enghraifft y Clwb Pontio.

Mae ein cynllun Cyfaill Cymraeg sy'n paru dysgwr â siaradwr rhugl er mwyn creu cyfleoedd i ddefnyddio'u Cymraeg hefyd yn parhau.

## 6.6. Recriwtio

Caiff anghenion iaith pob swydd newydd yn cael eu hasesu trwy ddefnyddio pecyn asesu sy'n seiliedig ar erfyn diagnostig Cydbwyllgor Addysg Cymru. Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Nid yw ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Darperir pob ffurflen gais, deunydd esboniadol, gwybodaeth am ein proses gyfweld a disgrifiadau swydd yn Gymraeg.

Mae lle i unigolion nodi eu sgiliau iaith ar y ffurflen gais a hefyd a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfweiliad.

Yn unol â safon 148 (Cadw cofnodion), hysbysebwyd swyddi newydd a gwag fel a ganlyn:

Lefel iaith angenrheidiol	Nifer y swyddi yn 2021/22	Nifer y swyddi yn 2022/23	Nifer y swyddi yn 2023/24	Nifer y swyddi yn 2024/25
Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	25	38	6	36
Angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	4	0	0	0
Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	80*	74	30	89
Sgiliau yn y Gymraeg ddim yn angenrheidiol	5	0	0	8

\*Mae'r rhain yn cynnwys nifer anarferol o uchel o rolau technegol, arbenigol neu wedi'u targedu lle nad oes rhyngweithio â'r cyhoedd.

## 7. Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168)

### 7.1. Asesu sgiliau iaith staff

Gall staff ddewis cofnodi a ydynt yn siarad Cymraeg (ac ieithoedd eraill) neu yn eu dysgu ar eu proffil ar y Fewnrwyd. Fodd bynnag at ddibenion cynllunio iaith Gymraeg y gweithlu, defnyddir system o hunan-gofnodi lefel sgil Cymraeg ar ein system adnoddau dynol electronig, CIPHR. Mae'r lefelau a gofnodir yn gyson â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r Fframwaith Gyfeirio Ewropeaidd Gyffredin ar gyfer Ieithoedd (sef CEFR, 'Common European Framework of Reference for Languages').

Cymwysterau CBAC/CDCG	Fframwaith CEFR
Mynediad	A1
Sylfaen	A2
Canolradd	B1
Uwch	B2
Hyfedredd	C1

Yn unol â safon 145, dyma nifer a chanran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2025:

Lefel iaith	Nifer y staff 2022/23	Canran y staff 2022/23	Nifer y staff 2023/24	Canran y staff 2023/24	Nifer y staff 2024/25	Canran y staff 2024/25
Mynediad A1	99	13%	144	15%	141	15.5%
Sylfaen A2	45	6%	52	5%	46	5%
Canolradd B1	41	6%	55	6%	48	5.3%
Uwch B2	46	6%	62	6.5%	60	6.6%
Hyfedredd C1*	193	26%	265	27.5%	241	26.6%
Dim	254	34%	267	28%	226	25%
Heb gwblhau	68	9%	117**	12%	146**	16%
Cyfanswm	746	100%	962	100%	907	100%

\*Cynhwysir nifer y siaradwyr rhugl yn y nifer hwn, p'un a ydynt wedi dysgu Cymraeg neu yn siaradwyr mamiaith.

\*\* Mae canran uchel o staff heb gwblhau'r data a allai effeithio ar y canlyniad. Rydym yn cydweithio â'r rheolwyr i fynd i'r afael â hyn gyda'u timoedd.

Dyma nifer a chanran yr Ymddiriedolwyr a chanddynt sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2024/25:

Lefel iaith	Nifer yr Ymddiriedolwyr 2023/24	Canran yr Ymddiriedolwyr 2023/24	Nifer yr Ymddiriedolwyr 2024/25	Canran yr Ymddiriedolwyr 2024/25
Mynediad A1	2	13%	2	13%
Sylfaen A2	3	20%	3	20%
Canolradd B1	1	7%	1	7%
Uwch B2	1	7%	1	7%
Hyfedredd C1	6	40%	6	40%
Dim	2	13%	2	13%
Heb gwblhau	0	0%	0	0%
Cyfanswm	15	100%	15	100%

Yn 2024/25, nododd 51% o'n gwirfoddolwyr a mynychwyr Lleoliadau Datblygu Sgiliau fod ganddynt ryw gymaint o Gymraeg (Rhugl / Ychydig / Dysgwr).

Ym mis Gorffennaf 2025 byddwn yn cynnal Wythnos Profiad Gwaith gan gynnwys sesiwn am weithleoedd dwyieithog a llwybrau at yrfaedd yn Gymraeg. Bydd 61% o'r mynychwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl, a 97% o'r mynychwyr â rhyw gymaint o Gymraeg (Rhugl / Ychydig / Dysgwr).

## 7.2. Cwrsiau hyfforddi

Yn unol â safon 146, dyma nifer a chanran y staff a fynychodd gwsrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym yn Gymraeg yn 2024/25:

Cwrs	Nifer a fynychodd y cwrs Cymraeg	Nifer a fynychodd y cwrs Saesneg	Canran a fynychodd y cwrs yn Gymraeg
Defnyddio CIPHR	11	40	21.6%
Ychwanegu eitemau at ddangosfwrdd CIPHR	4	25	13.8%
Canllawiau CIPHR	3	24	11.1%
Mynediad o bell at CIPHR	7	44	14%
Seiberddiogelwch Amgueddfa Cymru	0	23	
Seiberddiogelwch Casgliadau	0	2	0%
Sut i gynnal cyfweiliad dychwelyd i'r gwaith	5	12	29.4%
Sut i amgryptio e-byst	6	7	46%
Sut i roi Labeli Sensitif ar e-byst	8	5	61.5%
Sut i nodi cyfweiliad dychwelyd i'r gwaith ar CIPHR	4	29	12%
Sut i riportio neges yn MS Teams	7	7	50%
Mewnbynnu cofnod salwch ar CIPHR	5	29	14.7%
Manylion swydd a thâl	4	27	12.9%
Canllawiau i reolwyr llinell	0	5	0%
Manylion personol	7	30	18.9%
Riportio neges gwerwydo trwy Outlook	7	3	70%
Hyfforddiant RingCentral	1	10	9.1%
Gwyliau – absenoldeb	6	29	17.1%

Mae canfod darparwyr achrededig Cymraeg yn gallu bod yn her mewn rhai meysydd. Byddwn yn parhau i gydweithio â chyrff ar draws y gwahanol sectorau ble bynnag posibl i ganfod a chomisiynu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **7.3. Datrys cwynion**

#### **7.3.1. Cwynion gan y cyhoedd**

Mae gennym system adborth a chwynion sy'n prif-ffrydio'r Gymraeg ac yn codi ymwybyddiaeth o hawliau defnyddwyr. Gall y cyhoedd gyflwyno cwyn, sylw neu adborth ar ein gwefan neu yn unrhyw un o'n safleoedd. Mae pob sylw gan y cyhoedd ynghylch y Gymraeg yn cael ei anfon at Gydlynnydd y Gymraeg sy'n cadw cofnod ac yn ymateb yn ôl y galw, yn unol â'r amserlen gorfforaethol sef cydnabyddiaeth o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 14 diwrnod gwaith. Mae copi o drefn gwyno'r Amgueddfa ar ein gwefan ac ym mhob derbynfa hefyd.

Yn ystod 2024/25, ni ddaeth unrhyw gwynion i law gan y cyhoedd.

#### **7.3.2. Cwynion at y Comisiynydd Iaith ac ymchwiliadau gan y Comisiynydd Iaith**

Yn ystod 2024/25, ni ddaeth unrhyw gwynion i law gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith.

### **8. Casgliad**

Rydym yn hynod falch o'n holl waith sy'n creu cyfleoedd i'n hymwelwyr ddysgu, defnyddio a dathlu'r Gymraeg, a rôl allweddol ein harlwy a'n hamgueddfeydd yn ecoleg ieithyddol cymunedau Cymru a thu hwnt. Rydym hefyd yn deall pwysigrwydd allweddol ein gweithlu a'n gweithleoedd ac yn gyffrous iawn i lansio ein polisi defnydd mewnol yn ddiweddarach yn 2025.